

## BETH YW TALIADAU UNIONGYRCHOL?

Taliad uniongyrchol yw lle mae'r Cyngor yn rhoi arian i unigolion sydd â hawl i dderbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol fel y gallant gyflogi cynorthwyydd personol a/neu brynu eu gofal a'u cymorth eu hunain yn hytrach na dibynnu ar yr adran gwasanaethau cymdeithasol i drefnu hyn drostynt. Mae taliad uniongyrchol yn rhoi'r hyblygrwydd i unigolyn benderfynu sut a phryd y darperir eu gofal a'u cymorth.

## SUT MAE GWNEUD CAIS I DDERBYN TALIAD UNIONGYRCHOL?

Bydd angen i unigolyn gael ei asesu gan y gwasanaethau cymdeithasol i weld os oes ganddynt unrhyw anghenion gofal a chymorth nad ydynt yn cael eu diwallu. Os mai canlyniad yr asesiad yw eu bod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, wedyn mae'n rhaid ystyried taliad uniongyrchol ynghyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol eraill fel y gallant ystyried pa opsiwn fyddai orau i ddiwallu eu hanghenon a'r canlyniadau a ddynodwyd.

## AR GYFER BETH Y GELLIR DEFNYDDIO TALIAD UNIONGYRCHOL?

Mae llawer o unigolion ym Mlaenau Gwent yn defnyddio eu taliad uniongyrchol i gyflogi Cynorthwyydd personol (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth) -

- Cefnogi'r unigolyn i gael mynediad a magu hyder yn y gymuned
- Cefnogi'r unigolyn gyda bywyd a gweithgareddau bob dydd
- Cefnogi'r unigolyn i gael mynediad i addysg
- Cefnogi'r unigolyn gyda gofal personol
- Cefnogi'r unigolyn i ddatblygu eu sgiliau a galluoedd

A Gellir hefyd ddefnyddio taliad uniongyrchol i brynu gofal gan asiantaeth gofal gofrestredig, gofal preswyl tymor byr a thymor hir, gwyliau byr neu offer (heb fod yn gysylltiedig ag iechyd). i ddatblyedigyd)b0 0 1s6-6(y)9(trac)-6(h )-17(na )-16(dib)-6(y4-U

- Yn hoffi cefnogaeth yn y ffordd draddodiadol h.y. gofalwyr yn galw 4 gwaith y dydd (ymweliadau 15 munud/30 munud), 7 diwrnod yr wythnos gan y gall fod yn anodd recriwtio a chadw cynorthwywyr personol.

## TERFYNU TALIAD UNIONGYRCHOL

Mae gan y Cyngor yr hawl i derfynu taliad uniongyrchol oherwydd: (Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth)

Marwolaeth unigolyn
Newid amgylchiadau
Newid yn dilyn adolygiad
Y taliad uniongyrchol dim yn cael ei drin mewn modd priodol
Yr unigolyn ddim yn dymuno parhau gyda'r taliad uniongyrchol
Yr unigolyn yn methu rheoli'r taliad uniongyrchol (hyd yn oed gyda chefnogaeth)
Ac yn y blaen.

## A FYDD TALIADAU UNIONGYRCHOL YN EFFEITHIO AR FUDD DALIADAU UNIGOLYN?

Ni fydd taliadau uniongyrchol yn effeithio ar fudd-daliadau unigolyn gan na chaiff ei gyfrif fel incwm ar gyfer dibenion treth. Fodd bynnag, gall effeithio ar eu budd-daliadau os yw'r cynorthwyydd personol yn derbyn budd-daliadau. Cyfrifoldeb y cynorthwyydd perso